

Rhif: WG30525



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad Technegol ynglŷn â
Rhyddhad Trosiannol yn dilyn Ailbrisió Ardrethi Annomestig 2017

Rhagfyr 2016

Cynnwys

1	Rhagarweiniad	1
2	Ymatebion i'r Ymgynghoriad	2
3	Crynodeb o'r Ymatebion	2
4	Rhestr o'r Ymatebwyr	6
5	Y Camau Nesaf	6

1. Rhagarweiniad

Ar ôl i Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) gyhoeddi'r rhestr ardrethi annomestig drafft ar gyfer 2017 ar 30 Medi 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n darparu cynllun rhyddhad trosiannol a fyddai'n cael ei gyllido'n llawn o 1 Ebrill 2017 i helpu talwyr ardrethi y byddai'r ailbrisiu'n effeithio ar eu cymhwysedd ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach.

Ynghyd â'r cyhoeddiad hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen ymgynghori technegol a oedd yn esbonio sut y byddai'r rhyddhad trosiannol arfaethedig yn cael ei gynllunio a'i weithredu. Roedd hwn yn dweud y byddai cynllun yn cael ei gyflwyno i helpu talwyr ardrethi a oedd yn cael Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach ar 31 Mawrth 2017 ac a fyddai'n gweld y ganran o ryddhad yr oedd ganddynt yr hawl iddi'n gostwng ar 1 Ebrill 2017, oherwydd bod eu gwerthoedd ardrethol yn cynyddu ar ôl yr ailbrisiu.

Bydd y rhyddhad trosiannol yn gweithio drwy gyflwyno'r cynnydd y byddai talwyr ardrethi cymwys yn atebol am ei dalu yn sgil hyn fesul cam dros gyfnod o dair blynedd (cynnydd o 25% yn yr atebolrwydd ym mlwyddyn 1, 50% ym mlwyddyn 2, a 75% ym mlwyddyn 3).

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn pobl ynglŷn â'r canlynol:

- y cynllun rhyddhad trosiannol arfaethedig, yn arbennig mewn perthynas â'r agweddau technegol ar gynnal cynllun o'r fath, y goblygiadau gweinyddol ac unrhyw brosesau neu weithdrefnau y bydd angen eu hystyried;
- yr effeithiau (boed hynny'n gadarnhaol ynteu'n anffafriol) y byddai cyflwyno'r cynllun yn eu cael ar y talwyr ardrethi y byddai'r rhyddhad hwn yn effeithio arnynt neu ar y rhai a fyddai'n cael eu heithrio;
- yr effeithiau (boed hynny'n gadarnhaol ynteu'n anffafriol) y byddai cyflwyno rhyddhad o'r fath yn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Cafwyd cyfanswm o 45 o ymatebion. Cafwyd ymatebion gan y categorïau canlynol o sefydliadau ac unigolion.

- Awdurdodau lleol (gan gynnwys cynghorau cymuned) - 11 (24%)
- Unigolion preifat - 24 (53%)
- Cyrff cynrychioladol - 10 (22%)

Rhoddir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Adran 4.

Roedd fformat, lefel manylion a chynnwys yr ymatebion yn amrywio'n sylweddol ac mae'r prif bwyntiau a godwyd wedi'u crynhoi isod.

3. Crynodeb o'r Ymatebion

Awdurdodau Lleol

1. Nid oedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol a ymatebodd o blaid cynllun rhyddhad trosiannol. Er eu bod yn cydnabod y byddai o fudd i dalwyr ardrethi ac yn sylweddoli y byddai Llywodraeth Cymru'n darparu'r arian ar ei gyfer, roedd y rhan fwyaf yn meddwl bod y rhyddhad trosiannol arfaethedig yn ychwanegu lefel arall o gymhlethdod.
2. Cafwyd sylwadau bod cyflwyno'r warchodaeth drosiannol yn gorgymhlethu'r cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach sydd ar hyn o bryd yn cael ei dderbyn yn gyffredinol gan dalwyr ardrethi ac sy'n syml i'w weinyddu. Serch hynny, dywedodd nifer fach fod cynllun rhyddhad trosiannol arfaethedig Cymru i bob golwg yn sylweddol symlach na chynllun cyfatebol arfaethedig Lloegr.
3. Roedd llawer o awdurdodau'n poeni na fyddai cyflenwyr meddalwedd yn gallu diweddarau eu systemau craidd i weinyddu'r rhyddhad trosiannol mewn pryd ar gyfer cyhoeddi biliau ardrethi annomestig 2017-18. O'r herwydd, dywedodd rhai awdurdodau y gallai fod angen iddynt anfon biliau diwygiedig oni fyddai'n bosibl newid pethau mewn pryd.
4. Roedd rhai'n poeni y byddai biliau diwygiedig yn achosi costau a dryswch diangen, ac, ynghyd â diweddarau'r meddalwedd, y gallai hyn fod yn ddrud ar adeg pan fo cyllidebau'n crebachu. Awgrymodd rhai y dylai Llywodraeth Cymru dalu am unrhyw gostau sy'n codi yn sgil newidiadau i'r meddalwedd neu yn sgil gorfod ail-filio.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, mae Llywodraeth Cymru wedi cadw mewn cysylltiad agos â'r darparwyr meddalwedd er mwyn esbonio'n fanwl sut y bydd y cynllun rhyddhad trosiannol yn gweithio er mwyn hwyluso datblygu'r newidiadau angenrheidiol i'r meddalwedd.

5. Awgrymodd nifer o awdurdodau y gellid lliniaru baich gweinyddol rhoi'r rhyddhad petai modd pennu isafswm ar gyfer y cynnydd mewn atebolrwydd cyn i bobl allu cymhwyso ar gyfer y rhyddhad trosiannol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys darpariaeth yn y rheoliadau sy'n dweud, er mwyn bod yn gymwys ar gyfer rhyddhad, ei bod yn rhaid i'r cynnydd yn yr atebolrwydd ar gyfer yr eiddo yn sgil yr ailbrizio fod yn fwy na £100.

6. Dywedodd rhai awdurdodau, er y byddai'r cynllun rhyddhad trosiannol yn help i fusnesau llai, na fyddai'r rheini nad ydynt yn gymwys ar gyfer y rhyddhad ardrethi busnesau bach ar hyn o bryd ac sy'n gweld eu gwerth trethadwy'n codi yn sgil yr ailbrizio'n cael cymorth.

Unigolion preifat

7. Pobl ag eiddo ar stryd fawr y Bont-faen lle mae'r ardrethi annomestig yn cynyddu yn sgil yr ailbrizio oedd y rhan fwyaf o'r talwyr ardrethi a ymatebodd.
8. Er bod rhai talwyr ardrethi yn croesawu'r cynllun, roedd llawer yn anhapus â'r cynigion ac yn awyddus i weld Cymru'n adlewyrchu'r penderfyniad yn Lloegr i godi trothwyon y gwerth ardrethol ar gyfer rhyddhad ardrethi busnesau bach.
9. Credai rhai talwyr ardrethi mai ateb tymor byr yn unig fydda'r rhyddhad trosiannol oherwydd y byddai'r rhyddhad trosiannol arfaethedig yn cynnig ysbaid am dair blynedd ond na fyddai'n help yn y tymor hwy i'r busnesau bach hynny y mae'r cynnydd yn yr ardrethi'n cael effaith anffafriol arnynt.

Mae Llywodraeth Cymru'n nodi'r pryderon hyn ac mae wedi ymrwymo i gyflwyno cynllun rhyddhad ardrethi parhaol i fusnesau bach a hwnnw wedi'i dargedu'n well o 2018 ymlaen. Bydd y cynigion ar gyfer y cynllun parhaol yn cael ei ddatblygu gyda rhanddeiliaid yn ystod 2017-18.

Cyrff cynrychioladol

10. Sylwadau'r cyrff cynrychioladol oedd yn amrywio fwyaf.
11. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn deall y rhesymwaith dros gynnig rhagor o gymorth i dalwyr ardrethi ond roedd yn meddwl bod mynd ati fel hyn yn glastwreiddio egwyddorion ailbrizio'n rheolaidd, sef er mwyn adlewyrchu'r amrywiadau yng ngwerthoedd rhenti'r farchnad eiddo. Dywedodd y Gymdeithas y byddai cyflwyno cynllun rhyddhad trosiannol yn ychwanegu haen o gymhlethdod at filiau ardrethi annomestig. Roedd hefyd yn poeni am gostau gweinyddu'r cynllun, yn enwedig pe na byddai modd i'w meddalwedd ymdopi â'r rhyddhad ac na fyddent yn gallu cyhoeddi biliau cywir mewn pryd, neu pe bai'n rhaid iddynt ailfilo'n ddiweddarach ym mlwyddyn ariannol 2017-18. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n meddwl y gallai'r talwyr ardrethi hynny sy'n wynebu cynnydd yn eu hatebolrwydd i dalu yn sgil yr ailbrizio ond sy'n anghymwys i gael rhyddhad trosiannol yn gweld y cynllun yn un annheg, yn enwedig y rheini nad ydynt ond yn croesi'r trothwy cymhwyso o drwch blewyn.

12. Roedd Cymdeithas y Siopau Hwylus yn croesawu darparu'r rhyddhad trosiannol am mai ardrethi annomestig yw'r ail gost sefydlog fwyaf sy'n wynebu'r sector hwn. Teimlai'r Gymdeithas hefyd y byddai'r cynllun arfaethedig yn cynnig rhyddhad wedi'i dargedu ar gyfer rhai o'r rheini y byddai'r ailbrisió'n debygol o effeithio arnynt fwyaf. Bydd yn golygu bod manwerthwyr mewn siopau hwylus yn gallu rheoli eu biliau trethi'n well dros oes rhestr ardrethi 2018 yn sgil cyflwyno'r newidiadau fesul cam a chaniatáu tair blynedd iddynt baratoi cyn gorfod talu'r bil ardrethi llawn. Roeddent hefyd o blaid gweld Llywodraeth Cymru'n ariannu'r rhyddhad fel nad oes capiau'n cael eu gosod ar gyfer talwyr ardrethi sy'n gweld eu hatebolwydd yn gostwng a bod y trethdalwyr hynny yn cael budd llawn ar unwaith yn sgil eu prisiad is.
13. Teimlai Cymdeithas y Syrfewyr Ardrethi na ddylid cyfyngu'r cynllun rhyddhad trosiannol i fusnesau bach, ond y dylid gwarchod talwyr ardrethi eraill sy'n wynebu cynnydd yn eu hatebolwydd. Credai'r Gymdeithas fod y trefniadau trosiannol arfaethedig yn Lloegr yn ffordd well o fynd o'i chwmpas hi a dywedodd ei bod yn poeni na fydd modd i bawb sy'n talu ardrethi na phob busnes yn gallu cynllunio ar gyfer y cynnydd yn eu hatebolwydd. Roedd yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried 'rhwyd ddiogelwch' neu gynllun trosiannol i helpu busnesau, yn enwedig yn sgil yr ansicrwydd ers Brexit a fydd, yn ei barn hi, yn cael effaith anffafriol ar dalwyr ardrethi ac ar economi Cymru.
14. Cododd Bilfinger GVA bwyntiau tebyg gan ddweud na fyddai gwarchodaeth i dalwyr ardrethi eraill a fyddai'n wynebu cynnydd yn eu hatebolwydd ac roedd yn well ganddo'r trefniadau yn Lloegr sydd, yn ei farn ef, yn cynnig rhywfaint o warchodaeth, sicrwydd a chymorth i dalwyr ardrethi sy'n wynebu cynnydd yn eu hatebolwydd. Dywedodd Bilfinger GVA fod gohirio ailbrisió ardrethi 2015 wedi gorliwio'r amrywiadau oherwydd treigl amser. Roedd yr ymateb yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried 'rhwyd ddiogelwch' i helpu busnesau Cymru yn ystod y cyfnod ansicr hwn. Roedd yn cydnabod y byddai angen cynllun hunan-ariannu ar gyfer cymorth o'r fath, ond teimlai fod cyfnod trosiannol ar i lawr yn ddewis amgen angenrheidiol er mwyn cynnig sefydlogrwydd i bawb.
15. Roedd Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain yn croesawu cynigion Llywodraeth Cymru i helpu busnesau bach drwy gyfrwng cynllun trosiannol a fyddai'n cael ei ariannu. O safbwynt gweinyddol, byddai busnesau tafarn o blaid system sy'n rhoi rhyddhad ar waith yn y ffordd symlaf posibl, gan ffafrio system awtomatig ar filiau.

Pob grŵp

16. Roedd yr ymatebwyr o bob grŵp yn amau pa mor hyfyw fyddai cynllun rhyddhad trosiannol tair blynedd a chofio'r mai'r bwriad yw cyflwyno cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach newydd a pharhaol o 2018-19 ymlaen.

Mae Llywodraeth Cymru'n nodi'r sylwadau hyn. Gan fod y rhestr ardrethi newydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2017 ac na chaiff y cynllun rhyddhad ardrethi newydd parhaol i fusnesau bach ei gyflwyno tan 1 Ebrill 2018, oni fyddai rhyddhad trosiannol ar gael, ni fyddai cymorth ar gael o gwbl yn

ystod blwyddyn gyntaf y rhestr newydd. Bwriad y cynllun rhyddhad trosiannol yw cynnig cymorth ychwanegol i'r busnesau bach hynny y mae'r ailbrisiu'n effeithio ar eu hatebolrwydd. Mae'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yn cynnig help i bob busnes bach cymwys. Bydd y berthynas rhwng y cynllun rhyddhad trosiannol a'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach newydd yn cael ei hystyried yn ystod 2017-18 pan fydd y cynigion ar gyfer y cynllun parhaol newydd yn cael eu datblygu.

17. Roedd rhyw faint o ddryswch ynglŷn â phwy fyddai'n gymwys ar gyfer rhyddhad trosiannol, yn enwedig ynglŷn â'r talwyr ardrethi hynny sydd ar hyn o bryd yn cael rhyddhad rhannol ac a fyddai'n dal i fod o fewn yr ystod rhyddhad rhannol ar ôl yr ailbrisiu.

Mae Llywodraeth Cymru'n cadarnhau y bydd y talwyr ardrethi hynny sy'n gymwys ar gyfer rhyddhad rhannol cyn yr ailbrisiu ac sy'n gweld eu gwerth trehadwy'n cynyddu, a hwythau'n dal i fod yn gymwys i gael rhyddhad rhannol ar ôl yr ailbrisiu, yn gymwys i gael rhyddhad trosiannol.

18. Codwyd nifer o sylwadau technegol ynglŷn â sut yr oedd y rheoliadau'n gweithio a sut y byddai'r rhyddhad yn cael ei weinyddu, er enghraifft, beth fyddai'n digwydd petai gwerth ardrethol 2010 eiddo yn gostwng yn ôl-weithredol.

Ystyriodd Llywodraeth Cymru'r sylwadau hyn wrth gwblhau drafftio'r rheoliadau.

19. Soniodd rhai o'r ymatebwyr nad oedd y broses ymgynghori'n ddigon hir i ganiatáu i randdeiliaid gynnig ymateb cytbwys.

Mae Llywodraeth Cymru'n nodi'r sylwadau hyn. Yr hyn a oedd yn bennaf gyfrifol am y cyfnod ymgynghori pum wythnos oedd cyhoeddi rhestr ardrethi drafft Asiantaeth y Swyddfa Brisiu ar 30 Medi 2016 a'r amser paratoi sydd ei angen i ddatblygu polisi, cyflwyno diwygiadau rheoliadol, ac i wneud y paratodau angenrheidiol ar gyfer rhoi cynllun newydd ar waith a hwnnw'n dod i rym erbyn 1 Ebrill 2017.

Cwestiynau ynglŷn â'r Gymraeg

20. Ni chafwyd dim ymatebion ynglŷn â'r Gymraeg.

4. Rhestr o'r Ymatebwyr

Cafwyd ymatebion gan y categorïau canlynol o sefydliadau ac unigolion.

Awdurdodau Lleol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Dinas Caerdydd
Cyngor Gwynedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

Cyrff cynrychioladol

Cymdeithas y Siopau Hwylus
Bilfinger GVA
Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain
Siambwr Fasnach y Gelli Gandryll
Rhanbarth Masnach a Busnes Sir Fynwy
Obelisk Computers
Cymdeithas y Syrfewyr Ardrethi
Cymdeithas Hunan-Arlwywyr Cymru
Cynghrair Twristiaeth Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Talwyr Ardrethi

Cafwyd 19 o ymatebion gan unigolion preifat Perchnogion siopau ar stryd fawr y Bont-faen oedd y rhan fwyaf o'r rhain.

5. Y Camau Nesaf

21. Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r ymatebion i lywio drafftio'r Rheoliadau ar gyfer y cynllun rhyddhad ardrethi trosiannol. Bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad yn nhymor yr hydref ac yn dod i rym ar 1 Ebrill 2017.
22. Roedd nifer o'r ymatebion yn canolbwyntio ar y cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yn hytrach nag ar y cynllun rhyddhad trosiannol. Bydd y rhain yn cael eu hystyried yn ystod 2017-18 wrth ddatblygu'r cynigion ar gyfer y cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach parhaol newydd a gyflwynir ar 1 Ebrill 2018.
23. Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda rhanddeiliaid ac yn ymgynghori'n eang i adolygu sut mae'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach presennol yn gweithio ac i ddatblygu cynllun parhaol newydd sy'n targedu'r cymorth yn well ar gyfer busnesau bach.